# Ysgol Gymraeg Dewi Sant

*"Tyfu a Llwyddo Gyda'n Gilydd"*

## Polisi - Dysgu Sylfaen

Cynnwys:


- Cenhadaeth
- Nod ac Amcanion Dewi Sant
- Dysgu Sylfaen - Datblygiad plant a'i berthnasedd i ddysgu
- Pwysigrwydd Chwarae
- Y Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol
- Cwricwlwm i Gymru – Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad
- Y Pedwar Diben
- Rôl Arweinydd y Dysgu Sylfaen
- Cynorthwywyr
- Cynllunio
- Arsylwi, Asesu ac Adrodd nôl
- Amgylchfyd Addysgiadol
- Yr Ardal Allanol / Amser Antur
- Pontio
- Cysylltiadau gyda Rhieni, Gofalwyr a Llywodraethwyr
- Bwyta'n Iachus
- Ymweliadau Addysgiadol
- Cyfleoedd Cyfartal
- Iechyd a Diogelwch
- Hunan Werthuso
- Adolygiad

# Cenhadaeth

Yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant datblygwn ddysgwyr hapus, annibynnol a chreadigol trwy gynnig profiadau heriol ac amrywiol sy'n eu paratoi i fod yn ddinasyddion llwyddiannus i Gymru a'r byd.

## Nod ac Amcanion yr Ysgol

1. Sicrhau mai Cymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu ymhob agwedd o waith yr Ysgol.
2. I ddatblygu Cymry Cymraeg sy'n ymfalchio yn eu hiaith, eu diwylliant a'u Thraddodiadau.
3. Creu awyrgylch hapus a diogel gyda sylw a chefnogaeth i bob plentyn ac aelod o staff.
4. Cynnig profiadau addysgiadol eang trwy gyfrwng cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol a fydd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn annog pob plentyn i gyrraedd y safon uchaf posib.
5. Dysgu sgiliau sylfaenol gan rhoi'r cyfle i bob plentyn eu defnyddio'n hyderus mewn amryw o gyd destunau trwy gydol oes.
6. Sicrhau lle bynnag posibl fod gan bawb fynediad i'r cwricwlwm a'r cyfle i ddysgu pa fodd bynnag eu gallu, crêd, hîl neu'u cefndir.
7. Creu awyrgylch ofalgar lle fod pawb yn cael eu parchu ac yn dangos parch at eraill.
8. Sicrhau safonau ymddygiad uchel.
9. Cynnig awyrgylch groesawgar a datblygu berthynas effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg o fewn yr ardal.
10. Dathlu ymdrech, cyrhaeddiad a thalent pob unigolyn.
11. Cefnogi a datblygu doniau a sgiliau'r gweithlu er mwyn cynnal a dathlu gwaith tîm.
12. Creu dysgwyr gydol oes ac unigolion sydd â meddylfryd uchelgeisiol.

# Dysgu Sylfaen - Datblygiad plant a'i berthnasedd i ddysgu

*Dylai'r broses addysgu a dysgu gynnwys canolbwyntio ar feysydd traddodiadol datblygiad plant, a fynegir yma fel y pum llwybr datblygu:*

1. ***Perthyn*** - Mae ymdeimlad o berthyn yn elfen hanfodol o hapusrwydd a lles ein disgyblion. Mae'n llywio ymwybyddiaeth ein dysgwr o bwy ydynt a phwy y gallant dyfu i fod, mae yn sail i ethos ein hysgol.

2. ***Cyfathrebu*** – Rydym yn darparu amgylchedd sy'n cefnogi dysgwyr i fynegi a chyfathrebu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd effeithiol yn bwysig er mwyn mynegi eu hunain, datblygu cysylltiadau cymdeithasol cryf ac er mwyn dysgu.

3. ***Archwilio*** - Mae chwilfrydedd ein dysgwyr ynghylch y byd o'u cwmpas yn gymhelliad cryf iddyn nhw fynd ati i archwilio. Mae ein staff yn adeiladu ar chwilfrydedd dysgwyr yn ystod digwyddiadau bob dydd, er mwyn iddyn nhw ryfeddu a chael eu hysbrydoli. Mae ein dysgwyr yn cael cyfle i archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain, a chydag eraill, er mwyn rhannu eu llawenydd wrth ddarganfod gwybodaeth neu sgiliau newydd, dysgu oddi wrth ei gilydd, a dathlu eu cyflawniadau eu hunain a chyflawniadau eu cyfoedion. Ceir amgylcheddau cynhwysol, y tu mewn a thu allan, sy'n rhoi amser a chyfle i archwilio, chwarae ac ymchwilio.

4. ***Datblygiad corfforol*** - Mae gweithgarwch corfforol a symud yn hanfodol i ddatblygiad pob dysgwr, ac mae'n gysylltiedig â sgiliau gwybyddol a dysgu. Mae ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn cynyddu ymdeimlad dysgwr o berthyn a lles. Mae hefyd yn cyfrannu at lefelau uwch o ganolbwyntio, cymhelliant a chofio, yn ogystal â datblygu esgyrn a chyhyrau iach.

5. ***Lles*** - Rydym yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ymlyniadau a chydberthnasau diogel ag eraill, er mwyn teimlo'n hyderus ynddyn nhw eu hunain a bod mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau, cymryd risgiau, meithrin gwydnwch ac annibyniaeth, a chymryd rhan bositif mewn gweithgareddau bob dydd.

Galluogi dysgu *(Llywodraeth Cymru, 2022)*

## Pwysigrwydd Chwarae

Y mae chwarae yn allweddol i bob plentyn.  Hyn sydd yn eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a chodi safonau.  Wrth drefnu gweithgareddau chwarae effeithiol yr ydym yn gallu helpu'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd o'i hamgylch.  Y mae chwarae effeithiol wedi ei gynllunio'n bwrpasol er mwyn;

- Datblygu iaith a sgiliau cyfathrebu.
- Ehangu sgiliau mathemategol a datrys problemau.
- Cyfoethogi ac ymarfer sgiliau ar draws y meysydd dysgu.
- Datblygu chwilfrydedd a chreu dysgwyr annibynnol.
- Annog cydweithrediad ac ymwybyddiaeth o eraill.
- Cefnogi'r dysgu.

Mae profiadau uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd y maent yn byw ynddo.

Mae chwarae'n hanfodol nid yn unig i'r ffordd y mae plant yn dod yn ymwybodol o'u hunain a'r ffordd y maent yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol; mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad deallusol.

Y mae'n hanfodol ein bod;

- Yn ymwybodol o sut a phryd i gefnogi'r disgyblion
- Cynllunio manwl o weithgareddau yn y dosbarth a'r ardal tu allan.
- Yn cynnig digon o amser a chyfleoedd i'r plant ddatblygu sgiliau ar draws y meysydd dysgu.
- Cynllunio sesiynau arsylwi er mwyn datblygu ein systemau asesu a chynllunio datblygiad a dilyniant i bob plentyn.
- Yn ystyried llais y plant wrth gynllunio.

## Y Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol

Bydd y Cwricwlwm yn ffocysu ar ddatblygu,

- Sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion.
- Sgiliau personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol fel modd o ddatblygu'r plentyn cyflawn
- Yr hunan hyder a hunan werth sydd yn angenrheidiol wrth wynebu profiadau newydd.
- Sgiliau creadigol ac arsylwadol i annog eu datblygiad fel unigolion.
- Gweithgareddau yn yr ardal allanol lle y mae ganddynt brofiadau llaw-cyntaf o ddatrys problemau ac wrth ddysgu am gadwraeth a chynhaliaeth.

Wrth gyflwyno'r Cwricwlwm, bydd cyfleoedd i ddysgu ac ystyried elfennau trawsbynciol. Bydd y rhain yn galluogi dysgwyr i:


- ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

- datblygu dealltwriaeth o addysg perthnasoedd a rhywioldeb, addysg hawliau dynol amrywiaeth, a gyrfaoedd a phrofiad cysylltiedig â gwaith.

Mae Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu o fewn canllawiau SACRE yr awdurdod lleol. Disgwylir i blant ddangos moesau a gwerthoedd sydd yn cael eu llongyfarch a'u gwobrwyo.  Mae'r rhain yn cynnwys caredigrwydd a chyfeillgarwch, annibyniaeth, cydweithrediad, gofal, dewrder, balchder a pharch. Mae'r cynlluniau hefyd yn sicrhau fod plant yn ymwybodol o wahanol grefyddau ac yn cael y cyfle i ymweld â gwahanol gapeli ac addoldai er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae gan rieni'r hawl i wrthod i'w plant gymryd rhan mewn gwasanaethau neu wersi Addysg Grefyddol.

## Cwricwlwm i Gymru - Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad




## Sgiliau ar draws y Cwricwlwm

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'n hanfodol bod ein disgyblion yn cael y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau gydol-oes. Wrth annog amrywiaeth o ddulliau dysgu rydym yn sicrhau bod cyfleoedd gan ddisgyblion i ymarfer a datblygu sgiliau dros amser.  Ar sail hyn, cydnabyddwn fod plant yn unigolion a byddant yn caffael ac yn datblygu sgiliau ar gyflymder gwahanol.

## Y Pedwar Diben

Mewn ymateb i Gwricwlwm am Oes rydym yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn cynllunio gyda'r **Pedwar Diben** wrth wraidd pob agwedd o'r dysgu.

Dymunwn i'n disgyblion fod:

- **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- **yn gyfranwyr metrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

- **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- **yn unigolion iach, hyderus** syn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

## Rôl Arweinydd Y Dysgu Sylfaen

Yr arweinydd fydd yn cysylltu gyda'r Brifathrawes a'r asiantaethau allanol. Ceir cyfarwyddiadau priodol i'r arweinydd i gadw cysylltiad gyda'r Pennaeth:

- I sicrhau fod polisi y Dysgu Sylfaen, cynlluniau gwaith a dogfennau'r Cwricwlwm wedi eu cwbwlhau a'u hadolygu'n gyson.
- I gefnogi ac i roi arweiniad i gydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant y CC1 a CC2 wrth gyd-gynllunio a threfnu.
- I fonitro a gwerthuso ansawdd y dysgu a'r addysgu a safon y gwaith.
- I ddefnyddio arbenigedd i godi ymwybyddiaeth cyd-athrawon yng Ngham Cynnydd 3.
- I adrodd nôl ar ôl cyrsiau Hyfforddiant Mewn Swydd.
- I arwain Hyfforddiant Mewn Swydd i gyd-weithwyr.
- I weithio law yn llaw gydag oedolion gan ddarparu esiampl o ymarfer da.
- I ddynodi defnydd o adnoddau ac anghenion gan sicrhau fod yr adnoddau yn rhoi cyfle i ddilyniant mewn gweithgareddau o'r Feithrin i'r Dosbarth Derbyn.
- I ddatblygu datblygiad proffesiynol y staff.
- I gadw cysylltiad gyda asiantaethau eraill e.e. Cylch Meithrin, rhieni, Ymgynghorydd y Dysgu Sylfaen, CSC, Gwasanaethau Cymdeithasol, nyrs yr ysgol, therapydd lleferydd.

## Cynorthwywyr

Mae cynorthwywyr yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn …

1. Gwneud cyfraniad sylweddol i'r addysgu ac i les ein disgyblion.
2. Annog brwdfrydedd ymhlith disgyblion ynghylch yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.
3. Modelu disgwyliadau'r ysgol i feithrin dysgwyr gydol oes.
4. Annog annibyniaeth yn ein disgyblion.
5. Cael eu datblygu'n broffesiynol ac yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi staff a disgyblion.
6. Cyfathrebu'n effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol.
7. Yn gyson wrth ymdrin â disgyblion ac yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol.
8. Cymryd cyfle i ymestyn yr addysgu ac i annog disgyblion i gyrraedd eu potensial.
9. Arsylwi ac annog disgyblion er mwyn symud y dysgu ymlaen.

*Mae eich barn yn bwysig ac rydych yn aelodau gwerthfawr o'r ysgol.*

# Cynllunio

Yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant yr ydym yn adeiladu ar sgiliau ac asesiadau blaenorol.

*Cynllunio Tymor Hir* – Cynlluniau Gwaith Meysydd Dysgu Cwricwlwm i Gymru a Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

*Cynllunio Tymor Canol* – Trosolwg Tymhorol sydd yn cael ei ddosbarthu i rieni a themau sy'n olrhain sgiliau traws gwricwlaidd a sy'n cwmpasu'r 4 Diben.

*Cynllunio Tymor Byr* – Cynllunio Wythnosol / Cynllun Heriau Hwylus / Cynllun Amser Antur

Mi fydd yna gydbwysedd rhwng gweithgareddau strwythedig yn cael eu harwain gan oedolyn a gweithgareddau annibynnol. Bydd Heriau Hwylus yn cael eu cynllunio'n wythnosol/bythefnosol i gyd fynd â gweithgareddau ffocws y dosbarthiadau.

Y mae pob aelod o staff yn cyd-gynllunio i sicrhau fod pawb yn cyfrannu at yr arsylwadau, recordio a'r llwyddiant o fewn y dosbarth.

# Arsylwi, Asesu ac Adrodd yn ôl

**Arsylwi** - Y mae arsylwi effeithiol yn galluogi'r staff i:

- Adnabod anghenion yr unigolyn gan ddeall cryfderau, gwendidau a diddordebau.
- Gydnabod y cynllun datblygu ar gyfer yr unigolyn.
- Osod targedau ar y cyd gyda'r disgyblion.
- Amlygu gallu'r disgyblion ar draws pob maes dysgu.
- Gynnig cwricwlwm cyflawn i bob plentyn yn cynnwys plant ag anghenion arbennig.
- Ddweud wrth blant am eu llwyddiannau ac yn eu dathlu.
- Ddweud wrth rieni a staff am lwyddianau'r disgyblion ac am y ffordd ymlaen.
- Sicrhau pontio effeithiol.

## Asesu:

Mae asesu yn hanfodol i ddyluniad y cwriwclwm a phwrpas cyffredinol asesu o fewn y cwricwlwm yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Cydnabyddwn fel ysgol mai diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i symud ymlaen yn briodol gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol a hynny. Ein prif ffocws yw i gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus a nodi, cipio a myfyrio ar eu cynnydd dros amser. Yn ychwanegol i hynny anogwn ddysgwyr i fyfyrio'n annibynnol i lywio darpariaeth y dyfodol ac i gydnabod gwelliannau unigol.

## Adrodd yn ôl:

- Noswaith rhieni tymor yr Hydref i drafod safonau presennol a'r ffocws ar gyfer datblygu sgiliau pellach.
- Gosod targedau fel ymateb i asesiadeau parhaus ac asesiadau. Tracio cynnydd drwy ein taenlenni asesu.
- Noson agored yn y Gwanwyn i drafod cynnydd sgiliau plentyn ac i rannu targedau unigol.
- Adroddiad blynyddol i rieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gyda'r targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf a chyfle i drafod os dymunir.
- Noson agored yn nhymor yr haf i ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn.

## Yr Amgylchfyd Addysgiadol

Yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant rydym yn trefnu a chynllunio amgylchfyd addysgiadol er mwyn sicrhau fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r disgyblion.

Bwriad:

- I greu amgylchfyd lliwgar a chroesawgar er mwyn dathlu ac arddangos gwaith y plant.
- I ddarparu amrywiaeth helaeth o weithgareddau heriol ar gyfer gofynion yr unigolyn.
- Cynnig cyfleoedd er mwyn codi safonau, datblygu sgiliau ac annibyniaeth ym mhob maes dysgu.
- Magu hyder y plant wrth weithio tu fewn a thu allan.
- Trefnu ein cyfleoedd dysgu gan osod ardaloedd sydd yn sbarduno diddordeb y disgyblion a datblygu dysgwyr annibynnol.
- Darparu ardaloedd o weithgareddau parhaus ac wedi'u cyfoethogi er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau penodol a phwrpasol.

## Yr Ardal Allanol / Amser Antur

Y mae'r amgylchfyd allanol yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ychwanegol yn yr awyr agored.

Rydym yn cynllunio gweithgareddau heriol a hwylus sydd yn dangos dilyniant yn ôl datblygiad y plentyn.

Fel ysgol rydym am ddatblygu y defnydd o'n hardaloedd allanol a dysgu yn yr awyr agored. Bydd Blwyddyn 1 a 2 yn mynychu sesiynau Amser Antur a fydd yn cael eu cynllunio ac arwain gan yr athrawon. Nod Amser Antur yw rhoi cyfle i blant fwynhau y byd o'u cwmpas, i fagu annibyniaeth, hunan-hyder a rhoi cyfleoedd iddynt gyd-weithio. Byddwn yn cynnal Amser Antur boed haul, law, niwl neu eira!

# Pontio

Mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu partneriaeth agos â Chylch Meithrin Llanilltud Fawr er mwyn sicrhau dilyniant a chysondeb yn natblygiad y plentyn. Derbynir plant i'r Feithrin ar ôl eu penblwydd yn 3 oed gyda'r dewis o fynychu'r meithrin yn y bore neu'r prynhawn. Rydym yn gwahodd y Cylch i Gyngerdd Nadolig CC1 ac i ymuno mewn ym more Mabolgampau CC1. Cynhelir sesiynau Ti a Fi yn yr ysgol yn wythnosol.

Cynhelir noswaith ar gyfer darpar rhieni yn ystod tymor yr haf. Anogir rhieni i ymweld â'r ysgol gyda'i plentyn cyn iddynt ddechrau ac i gwblhau a dychwelyd 'Proffil Mynediad' yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi "drws agored" sydd yn galluogi rhieni i drafod unrhyw bryderon neu achosion mewn awyrgylch broffesiynol a sensitif.

Mae cyd-weithio rhwng staff a sesiynau pontio yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 2 yn symud i Flwyddyn 3 yn hapus. Cynhelir noswaith bonito i rieni Blwyddyn 2 yn ystod Tymor yr Haf.

## Cysylltiadau gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol

### Disgyblion

Bydd disgyblion yn cael y cyfle i rannu syniadau a chynllunio ochr yn ochr â'u hathrawon a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar eu lles, eu hagweddau at ddysgu ac ymglymiad. Trwy wneud hyn maen nhw'n cael mwy o berchnogaeth o'n cwricwlwm.

### Rhieni/Gofalwyr:

Gwerthfawrogwn gyfraniad rhieni at addysgu eu plentyn. Ar sail hyn yr ydym yn gwrando ar eu sylwadau ac yna yn creu darlun cyflawn am y plentyn. Y mae sawl ffordd gennym i sicrhau cyfathrebu effeithiol,

- Cwrdd cyn bod y plant yn cyrraedd y Feithrin ar Noson Agored.
- Rhoi llyfryn gwybodaeth i'r plant am y Feithrin.
- Cynnal cyfarfodydd gyda arweinydd Dysgu Sylfaen a'r Pennaeth i godi ymwybyddiaeth o faterion penodol.
- Sicrhau fod aelod o staff ar gael ar ddechrau a diwedd y dydd.
- Cylchlythyr misol.
- Adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn.
- Nosweithiau Agored.
- Llythyr neu e-bost gydag unrhyw wybodaeth addas.
- Gwybodaeth o glybiau / Menter y Fro/ Urdd ar Trydar yr Ysgol @YDewiSant
- Trydar unigol i bob dosbarth i rannu ciplun o weithgareddau'r wythnos.

- Cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref.
- Cyfathrebu cyson drwy wefan yr ysgol www.ysgolgymraegdewisant.co.uk

**Llywodraethwyr**

Sicrhewn bod;

- Gan aelod o gorff y Llywodraethwyr gyfrifoldeb am y Dysgu Sylfaen.
- Y Llywodraethwyr wedi ymweld â' dosbarthiadau'r Dysgu Sylfaen fel rhan o'u harsylwadau.
- Llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau o fewn y Dysgu Sylfaen – drwy adroddiadau'r Pennaeth a chyfarfodydd yr is- bwyllgor cwricwlwm, ac adroddiadau'r is-bwyllgor i'r cyfarfodydd llawn.

## Bwyta'n Iachus

Y mae amser llaeth a ffrwyth yn ran bwysig o'r diwrnod fel modd o ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Rydym yn annog y plant i fwyta amrywiaeth o ffrwythau ac y mae'r rhieni yn gwneud cyfraniad wythnosol.

Mae'r ysgol yn cynnal Clwb Brecwast ar safle'r ysgol ar gyfer y plant. Mae'r clwb (sydd wedi ei ariannu gan y Cynulliad) yn rhedeg am 45 munud ac mae'r plant yn cael dewis o dost a gwahanol rawnfwydydd iachus gyda llaeth neu sudd.

## Ymweliadau Addysgiadol

Bydd ymweliadau yn chwarae rôl allweddol yn y Dysgu Sylfaen. Mi fyddwn yn gwneud asesiad risg am bob ymweliad. Bydd yr ysgol yn gofyn i'r rhieni i ymuno gyda'r plant neu i roi caniatâd i oedolyn arall fod yn gyfrifol am y plentyn.

## Cyfleoedd Cyfartal

Y mae gan bob plentyn gyfle cyfartal i brofi gweithgareddau'r Dysgu Sylfaen beth bynnag eu lliw, cefndir, rhyw, gallu neu anabledd. Mi fydd cyfleuon cyfartal yn rhan o bob cynllunio. Sicrhewn bod disgyblion ADY yn derbyn yr un cyfleoedd gydag addasiadau lle bod angen.

## Iechyd a Diogelwch/ Gofalaeth Disgyblion

Cyfrifoldeb y staff i gyd yw i fod yn ymwybodol o Iechyd a Diogelwch y disgyblion. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol o weithdrefnau Amddiffyn a Diogelu Plant a sut i sicrhau gofalaeth am y disgyblion (Gweler polisi Amddiffyn Plant). Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Lefel 1 Diogelu Plant. Dylid annog agwedd bositif at ddiogelwch ar bob achlysur wrth ddefnyddio offer. Os oes unrhyw problemau'n ymddangos bydd angen gwneud asesiad risg.

## Asesiadau Risg

Bydd asesiad risg ar gyfer pob ymweliad, offer newydd ac unrhyw newid i safle'r ysgol.

# Hunan Werthuso

Cyfrifoldeb y Pennaeth ac Arweinydd y Dysgu Sylfaen yw i fonitro'r ddarpariaeth, ansawdd y dysgu a'r addysgu a safonau cyrhaeddiad y plant. Y mae hyn yn golygu monitro'r cynlluniau gwaith, teithiau dysgu a chasglu gwaith y plant.  Mae'n allweddol i gysylltu hyn gyda chylchrediad hunan-werthuso parhaus yr ysgol a chynlluniau datblygu blynyddol.

# Adolygiad

Byddwn yn adolygu'r polisi yn rheolaidd gyda'r llywodraethwyr gan gyfathrebu gyda staff a rhieni.

Pennaeth.........................................................................

Dyddiad: Mai 2023

Cadeirydd y Llywodraethwyr...........................................

Dyddiad: Mai 2023